**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 29 Tachwedd 2000 |
| **Amser:** | 12.30 hyd 4.00 pm |
| **Teitl:** | **Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy: Y Goblygiadau ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru** |

## Rhagarweiniad

Mae’r Papur hwn yn ddogfen gefndir a baratowyd i gefnogi cyflwyniad sydd i’w draddodi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 29 Tachwedd 2000. Mae’n amlinellu beth yw prif oblygiadau’r Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar Awdurdodau y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae hefyd yn ceisio mesur a phwyso’r costau y bydd disgwyl i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru eu hysgwyddo bob blwyddyn tra’n cynnal y dyletswyddau newydd yn Rhan I a Rhan II y Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, fel y’i diwygiwyd, ar 16 Hydref 2000. Roedd papur blaenorol wedi’i baratoi yn crynhoi goblygiadau cost y ddeddfwriaeth arfaethedig nôl ym mis Gorffennaf 2000, gan ddisodli’r bid ffurfiol a wnaed i’r Cynulliad Cenedlaethol fis Mehefin. Yn yr atodiad rhoddir dadansoddiad manwl o’r costau y bydd y tri Awdurdod yng Nghymru yn gorfod eu hysgwyddo o ganlyniad i weithredu effeithiau llawn y Mesur. Gan na fydd yn bosibl eu gweithredu ar unwaith, bydd yr holl gostau ond yn ymddangos mewn blynyddoedd i ddod.

Bydd cyfran fawr o’r Tir Mynediad yng Nghymru yn y tri Pharc Cenedlaethol, gan eu bod â 200,000 hectar o holl rostir, mynydd-dir, gweundir a dolydd Cymru. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn gyfrifol am sicrhau na fydd y niferoedd enfawr o bobl sy’n ymweld â nhw bob blwyddyn (14.8 miliwn o ddiwrnodau ymwelwyr y flwyddyn) yn cael effaith andwyol ar fuddiannau cadwraeth. Fodd bynnag, bydd y goblygiadau ar gyfer y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru yn gwahaniaethu yn ôl amgylchiadau penodol bob un:

- Nid oes unrhyw ddyletswyddau neu bwerau awdurdodau priffyrdd gan Barc Cenedlaethol Eryri i reoli hawliau tramwy cyhoeddus ac felly costau gweddol fach a fydd yn gorfod eu hysgwyddo menw perthynas â Rhan II y Mesur. Wedi dweud hynny, Parc Eryri sydd â’r arwynebedd fwyaf o Dir Mynediad (140,000 hectar) a’r nifer fwyaf o ymwelwyr allan o’r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn datblygu strategaeth mynediad integredig gyda’r awdurdodau unedol er mwyn gallu rheoli 1,1000km o hawliau tramwy, i wireddu potensial economaidd ac adloniadol y ddeddfwriaeth mynediad i gefn gwlad yn llawn.

- Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sydd â’r gyfran leiaf o Dir Mynediad potensial o’i gymharu â’r ddau Barc Cenedlaethol arall, gan bod y rheiny’n barciau ucheldir yn bennaf. Mae llawer o’r tir mynediad hwn fodd bynnag yn dameidiog ac yn arfordirol, sy’n gorfod cael ei reoli’n ddwys iawn oherwydd ei ddiddordeb cadwraeth natur. Efallai bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn dynodi rhagor o’r ‘tir arfordirol’ yn y dyfodol ac, os hynny, bydd yn rhaid edrych eto ar faint o adnoddau sydd ei angen. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol hwn yn dibynnu’n fawr ar ei bwerau dirprwyol i reoli rhwydwaith yr hawliau tramwy cyhoeddus presennol (1,069km) ar gyfer darparu cyfleoedd mynediad.
- Mae gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog boblogaeth cyrion dinas fawr yn byw’n agos iawn at ardaloedd eang o Dir Mynediad potensial (53,487 hectar), ynghyd â’r amrediad llawn o ddyletswyddau dirprwyol o ran ei rwydwaith hawl tramwy cyhoeddus helaeth (1,852km). Bydd yn rhaid i’r Awdurdod hwn felly wario cryn dipyn mewn perthynas â Rhan I a Rhan II y Mesur.

Mae tri awdurdod y Parciau Cenedlaethol Cymreig wedi cydweithio’n agos gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i asesu goblygiadau’r ddeddfwriaeth newydd. Mae pob awdurdod wedi amcangyfrifo faint o Dir Mynediad sy’n debygol o gael ei ddynodi yn ei ardal unigol, yn seiliedig ar fapiau o rostir a gweundir a chofrestriadau tir comin, er mai CCGC wrth gwrs fydd yn gyfrifol am fapio’r Tir Mynediad yn y pen draw. Mae brasamcanion y gost a gwerthusiadau’r goblygiadau yn seiliedig ar brofiad eang y Parciau o reoli hamdden, gan gynnwys rhedeg gwasanaethau wardeinio a rheoli Ardaloedd Mynediad ffurfiol. Bydd yn rhaid adeiladu ar y partneriaethau sy’n bodoli eisoes gyda thirfeddianwyr, cymunedau a defnyddwyr hamdden er mwyn sicrhau cydweithrediad rhwng pawb pan fyddwn yn rhoi’r ddeddfwriaeth ar waith.

**Materion Allweddol i’w Hystyried**

**Rhan I Mynediad i Gefn Gwlad**

- Ar hyn o bryd, nid oes gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru ddyletswydd cyfreithiol i reoli mynediad ar fynydd-dir, rhostir, gweundir a thir comin, heblaw tir sy’n ddarostyngedig i gytundebau mynediad a rheoli ffurfiol. Mae’r rhagdybiaeth fod mynediad ‘*de facto*’ i ardaloedd yr ucheldir wedi bod yn cael ei reoli mewn parciau cenedlaethol yn anghywir felly i raddau helaeth. Lle mae mynediad ‘*de facto*’ i dir o’r fath, mae’r gwaith rheoli wedi bod yn ymwneud yn bennaf â hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau llinellol cwrteisi eraill. Felly ’does fawr yn gyffredin rhwng yr arferion rheoli mynediad traddodiadol â’r rôl a’r swyddogaethau llawer ehangach fydd gan y Parciau Cenedlaethol o dan y Mesur CGaHT.
- Un o’r swyddogaethau newydd hyn fydd llunio a gorfodi is-ddeddfau a sicrhau na fydd y cyhoedd yn tramgwyddo ar dir mynediad. Bydd disgwyl i Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol ddarparu hysbysrwydd ar y safle a sicrhau neu wella’r dull mynediad i gefn gwlad agored a thir comin.
- Yn wahanol i awdurdodau unedol, bydd awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol hefyd yn

gyfrifol am weinyddu trefn cau tir neu gyfyngu mynediad i dir comin a chefn gwlad agored, mewn modd ymatebol yn ogystal â modd proactif. Mae hyn yn debygol o olygu llawer o adnoddau, gan y bydd yn rhaid hysbysu cerddwyr yn iawn ar gau mynediad, a rhaid i Awdurdodau'r Parciau sicrhau fod cerddwyr yn ymddwyn yn gyfrifol a bod tirfeddianwyr yn cyflawni eu gofynion.

- Mae'n dod yn fwyfwy amlwg fod tirfeddianwyr a cherddwyr fel ei gilydd yn credu y bydd yr hawl mynediad yn cael ei reoli'n dda a bydd gwasanaeth wardeinio gwell yn chwarae rhan flaenllaw yn rheoli'r hawl newydd hwn. Am y rheswm yma, byddai'n ddoeth cael gwasanaeth wardeinio hyfforddedig yn barod i sicrhau y caiff yr hawl mynediad ei reoli a'i gyflwyno'n iawn. Bydd yr hawl mynediad yn dibynnu ar y weithdrefn statudol ar gyfer mapio a diffinio cefn gwlad agored a thir comin gan y Cyngor Cefn Gwlad, felly mae digon o amser ar gyfer paratoi'r gwelliannau'r gwasanaethau wardeinio. Dylai nifer uwch o wardeiniaid leihau'r problemau a allai arwain at gau mynediad dros dro.
- Mae rheoli cn yng nghefn gwlad yn fater sensitif. Rhaid egluro a gorfodi'r cyfyngiadau a'r diffiniadau o ran yr angen i gadw cn ar dennyn. Hefyd bydd yn rhaid datrys y gwrthgyferbyniadau a allai ddigwydd rhwng Tir Mynediad a deddfwriaeth hawl tramwy, mewn perthynas â rheoli cn a chau mynediad dros dro.
- Ynghyd â darparu'r rhwydwaith a'r gwasanaeth wardeinio ar y ddaear, rhaid i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol godi i'r her ac egluro'r hawl mynediad newydd yn effeithiol a darparu hysbysrwydd i ymwelwyr. Bydd hysbysrwydd ar y safle ac yn y cymunedau, taflenni a chylchlythyrau, a'r cyfleoedd newydd a gyfyd drwy gyfrwng technoleg gwybodaeth, oll yn bwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a dehongli'r hawl mynediad newydd.
- Bydd Fforymau Mynediad Lleol yn gymorth mawr i gyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd. Er y bydd costau ychwanegol o ran sefydlu a gwasanaethu'r Fforymau hyn, dylent fod yn eu lle o'r cychwyn cyntaf er mwyn hwyluso cyflwyniad y ddeddfwriaeth, er enghraifft drwy fapio Tir Mynediad, a sicrhau y gellid delio'n effeithiol gyda'r materion a ddaw yn ei sgîl.

**Rhan II Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

- Cydnabyddir hawliau tramwy cyhoeddus fel y dull mwyaf pwysig i roi mynediad i'r cyhoedd i allu mwynhau cefn gwlad, ar droed, ar gefn ceffyl ac ar gefn beic. Yn ôl gwerthusiad diweddar ar y gwaith a gynhelir ar hyn o bryd ar hawliau tramwy ym Mharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro, mae 20-30% o'u rhwydwaith llwybrau yn dal yn anaddas i gerddwyr, gyda nifer fawr orchmynion dargyfeirio, creu a diwygio i'w prosesu. Fodd bynnag, mae'r Parciau Cenedlaethol hyn wedi'u hymrwymo i ddatblygu'r rhwydwaith yn gyfan gwbl. Felly, bydd yn rhaid paratoi digon o adnoddau ar gyfer y swyddogaethau hawliau tramwy ychwanegol sydd yn Rhan II y Mesur, yn hytrach na pheryglu safon y gwaith sydd wedi'i gynnal hyd yma.
- Mae Rhan II y Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cyflwyno nifer o ddyletswyddau

hawl tramwy newydd. Gan bydd y cyhoedd yn cael rhoi gwybod os oes angen cael gwared â rhwystrau (Cymal 59) a'r hawl i wneud cais am ddargyfeirio a gwaredu (cymal 53), bydd cryn dipyn o waith ychwanegol yn dod i ran yr Awdurdodau. Bydd yn rhaid i dimoedd hawliau tramwy a gwasanaethau cyfreithiol ymateb o fewn amser penodol. Heb adnoddau ychwanegol, mae perygl y bydd agenda trydydd parti yn pennu'r blaenoriaethau yn hytrach na'r dulliau strategol a ymgorfforwyd yn y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (cymal 56). Er y bydd Cilffyrdd Cyfyngedig (cymal 43) yn gostwng cyfanswm y gost a'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig ag ailddosbarthu ffordd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus, bydd yn dal yn rhaid ystyried y ceisiadau presennol am fynedfeydd i gerbydau. Bydd y newidiadau o ran cofnodi'r hawliau tramwy ar Fapiau Manwl hefyd yn creu rhagor o waith yn y tymor hir.

- Bydd amrywiol ddarpariaethau hefyd yn creu rhagor o waith: rheoli cerbydau mecanyddol yng nghefn gwlad, y pwer i ddargyfeirio neu atal hawliau tramwy er mwyn diogelu ysgolion, gwarchod ADdGA ac atal trosedd yn y cymunedau; clirio llystyfiant ar lwybrau ceffyl a gweinyddu dargyfeiriadau dros dro.

**Casgliad**

Mae Awdurdodau'r tri Pharc Cenedlaethol wedi'u hymrwymo i weithio gyda'u partneriaid yn yr awdurdodau unedol ynghyd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn gwireddu'r manteision sylweddol a ddaw yn sgîl y ddeddfwriaeth mynediad a hawliau tramwy newydd. Bydd agwedd y cyhoedd tuag at yr hawliau tramwy newydd i raddau'n penderfynu sut y byddant yn ymddwyn yng nghefn gwlad. Rhaid inni felly ystyried yn ofalus sut y bwriadwn roi cyhoeddusrwydd i'r hawliau tramwy newydd a'u rheoli os ydym am ddarparu cyfleoedd mynediad o safon er budd mwyniant y cyhoedd.

**Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru**

**Tachwedd 2000**

**ATODIAD**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

**Rhan I**

Swyddog Mynediad (gweinyddddiaeth, cau tir ac ati) (x1) £ 24,000

Cynorthwy-ydd Cyfreithiol (x1) £ 24,000

Cynorthwy-ydd Gweinyddol (x1) £ 14,000

Wardeiniaid (x3) Wardeiniaid Tymhorol (x3) £107,000

Costau cyfreithiol, dehongli, addysg, gwella pwyntiau mynediad £ 30,000

Cerbydau'r Wardeiniaid (x3) £ 45,000

Fforwm Mynediad Lleol £ 7,000

Cyfanswm y Gost **£251,000**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

**Rhan I**

Ceidwad (gan gynnwys Prydlesu Cerbyd/gorbenion) (x1) £ 25,000

Cyllideb Rheoli Mynediad (gwybodaeth gyhoeddus/dehongli/gwella

pwyntiau mynediad) £ 17,000

Cyllideb cyfreithiol (cau tir dros dro/gorfodi) £ 3,000

Fforwn Mynediad Lleol £ 4,000

**Rhan II**

Swyddog Hawl Tramwy (x1) £ 25,000

Cyllideb Cyfreithiol Hawl Tramwy (dargyfeirio/rhwytro) £ 10,000

Cynorthwy-ydd Gweinyddol (x1) (75% hawl tramwy/25% Rhan I) £ 14,000

Wardeiniaid Stad (x2) (gn gynnwys Cerbydau Prydles) £ 50,000

Cyfanswm y Gost Flynyddol **£148,000**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

**Rhan I**

Swyddog Mynediad (x1) £ 25,000

Warden (gan gynnwys prynu cerbyd) (x1) £ 43,000

Wardeiniaid Tymhorol Rhan Amser (x3) £ 50,000

Fforymau Mynediad Lleol £ 6,000

Darparu gwybodaeth £ 15,000

**Rhan II**

Swyddog Gweithredol Cyfreithiol Hawl Tramwy £ 25,000

Cyllideb Cyfriethiol Hawl Tramwy £ 12,000

Cyfanswm y Gost Flynyddol **£176,000**